# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-011-09)**

## SLC272

### Adroddiad Drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### Teitl: Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith safonau marchnata'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â chynhyrchu, marchnata a graddio wyau, a bydd yn galluogi deddfwriaeth bresennol a newydd y Gymuned i gael ei gorfodi yng Nghymru mewn perthynas â wyau deor neu wyau ar gyfer eu bwyta, ac mewn perthynas â chywion dofednod buarth fferm.

### Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Dylai'r diffiniad o "cywion" yn Rheoliad 3 (1) gyfeirio at yr ystyr a roddir yn Erthygl 1(2) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008, yn hytrach na 618/2008 - 15.2 (vi)

Dylai Rheoliad 3 (4) (b) gyfeirio at Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008 yn hytrach na 617/2007 - 15.2 (vi)

Wrth gyfrifo terfyn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau o dan reoliad 5 (2), nid yw'r ymadrodd "y cloc yn cael ei stopio" yn Rheoliad 5 (11) yn esbonio'n ddigon clir ai'r bwriad yw eithrio unrhyw gyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn ei roi i geisydd i gymryd unrhyw gamau a bennir mewn hysbysiad o dan reoliad 5 (4) - 15.2 (v)

Wrth gyfrifo terfyn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau o dan reoliad 8 (2), nid yw'r ymadrodd "y cloc yn cael ei stopio" yn Rheoliad 8 (11) yn esbonio'n ddigon clir ai'r bwriad yw eithrio unrhyw gyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn ei roi i geisydd i gymryd unrhyw gamau a bennir mewn hysbysiad o dan reoliad 8 (4) - 15.2 (v)

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**Ebrill 2009**

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

O ran y pwyntiau yr adroddwyd arnynt mewn cysylltiad â Rheoliad 3(1) a Rheoliad 3(4)(b) bwriadwn gywiro'r gwallau a nodwyd cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei chyhoeddi.

O ran y pwyntiau yr adroddwyd arnynt mewn cysylltiad â Rheoliad 5(11) a Rheoliad 8(11) mae gwasanaethau cyfreithiol wedi cael cyfarwyddiadau i ddirymu ac ail-wneud y rheoliadau hyn er mwyn rhoi rheolaethau newydd ar waith o ran Salmonela mewn wyau. Bwriadwn ddiwygio'r geiriad yr adroddwyd arno yn y rheoliadau newydd a ddaw.